

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 21 Medi 2016

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 27 MEDI 2016 am 10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2016 (copi'n amgaeedig).

5 GWASANAETHAU BWS LLEOL A CHLUDIANT ADDYSG (Tudalennau 17 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y camau a gymerwyd yn dilyn cwymp GHA Coaches Ltd a gofyn am gytundeb ar y strategaeth ar gyfer gwasanaethau bws lleol yn y dyfodol.

6 DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU A ARIENNIR DRWY'R CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL (Tudalennau 25 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi (copi'n amgaeedig) yn argymhell ariannu cynlluniau penodol fel y nodwyd yn yr adroddiad.

7 GWELEDIGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 29 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth i "Weledigaeth Twf Economi Gogledd Cymru" fel sail ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraethau'r DU a Chymru dros Gais Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth.

8 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 49 - 86)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2016/17.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 87 - 92)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff 13, 14, 15 ac 16 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf).

10 CYTUNDEB CYMAL LLETYGARWCH DATBLYGIAD GLANNAU'R RHYL (Tudalennau 93 - 108)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi (copi'n amgaeedig) yn rhoi diweddariad i'r Cabinet am gynnydd prosiect Datblygu Glannau'r Rhyl a gofyn am gymeradwyaeth i gwblhau'r Cytundeb Cymal Lletygarwch.

11 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH - GORCHYMYN PRYNU GORFODOL (Tudalennau 109 - 114)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi'n amgaaedig) am gynnydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol ar y safle.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley

Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2016 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

Arsylwyr: Y Cyngorwyr Martyn Holland, Arwel Roberts, Huw Williams a Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraataidd (GW); Partner Busnes Arweiniol - Datblygu Sefydliadol (AM); Rheolwr Rhaglen - Moderneiddio Addysg (JC); Uwch Brisiwr a Syrfêwr ac Eiddo (MJ); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

CYHOEDDIADAU

Yr Arweinydd -

- (i) Rhoddodd wybod i'r Aelodau am adferiad y Cyngorydd Huw Jones a oedd wedi ei daro'n wael yn ddiweddar a chadarnhaodd y trefniadau dros dro i drosglwyddo ei gyfrifoldebau i Aelodau Cabinet eraill er mwyn sicrhau y bydd pob maes yn ei bortffolio yn cael sylw yn ei absenoldeb, ynghyd â, cyn belled ag y bo modd, ei gyfrifoldebau cymunedol.
- (ii) Llongyfarchodd tîm pêl-droed Cymru ar eu llwyddiant yn Ewro 2016 a diolchodd i'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am drefnu'r ardal gefnogwyr yn Arena Ddigwyddiadau'r Rhyl ar gyfer gêm gynderfynol Ewro 2016 a hynny ar fyr rybudd. Roedd yr ardal yn hynod boblogaidd a phawb wrth eu bodd.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYD

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2016.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.

5 RHAN 9 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 - BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Gwasanaethau Plant adroddiad yn nodi'r gofynion i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mhob rhanbarth bwrdd iechyd yng Nghymru, a'r camau sy'n cael eu cymryd i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yma yng Ngogledd Cymru.

Diben Rhan 9 yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol yn hyrwyddo gweithio integredig ac yn edrych ar amrywiaeth o ffrydiau ariannu rhanbarthol yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Yn dilyn cytundeb partneriaid statudol, a oedd yn cynnwys chwe awdurdod lleol gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae Bwrdd Cysgodol wedi ei sefydlu i hwyluso'r broses o sefydlu'r bwrdd ffurfiol ym mis Medi. Mae'r Cynghorydd Feeley yn credu bod y Ddeddf wedi bod yn gatalydd angenrheidiol ar gyfer newid mewn ymateb i ddemograffeg gynyddol a phobl yn byw'n hirach, ac i wella bywydau.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i gwestiynau fel a ganlyn -

- Nid yw adnoddau'r bartneriaeth (arian parod, pobl, asedau, cyfleusterau, ac ati) yn gwbl glir ar hyn o bryd ond bydd yn fater i'r Bwrdd ei ystyried; mae'r Bwrdd Cysgodol wedi cyfethol cynrychiolydd Adran 151 o'r rhanbarth, gyda Swyddog Adran 151 y Cyngor yn cymryd yr awenau, sy'n rhoi sicrwydd ynghylch yr agweddau ariannol.
- Bydd yr elfennau cydweithio a phartneriaeth yn helpu i ddatblygu'r gwaith o integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, a bydd yr asesiad anghenion rhanbarthol yn helpu i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau lleol integredig a fyddai'n cynnwys prosiectau rhanbarthol ac isranbarthol.
- Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod arian ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru yn cael ei ddsbarthu'n deg ac yn briodol er budd y rhanbarth.
- Bydd mudiadau trydydd sector hefyd yn cael eu cynrychioli ac yn dod yn bartneriaid statudol pan fydd y Bwrdd ffurfiol wedi ei sefydlu.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) yn cymeradwyo cynigion Bwrdd Cysgodol y Bartneriaeth Rhanbarthol i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amodol ar ddeialog dwy ffordd barhaus rhwng y Bwrdd a phartneriaid ar y rhaglen waith a threfniadau gweithredu ar gyfer y Bwrdd;
- (b) yn enwebu ei gyfarwyddwr statudol a'i aelod arweiniol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol i eistedd ar y Bwrdd, ac
- (c) yn cefnogi'r opsiwn strwythurol lle -
 - (i) mae Grŵp Arweinyddiaeth o Swyddogion yn cefnogi'r Bwrdd drwy ddarparu cyngor strategol a chyfarwyddo gwaith gweithredol.
 - (ii) mae'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â threfniadau ardal i gyflwyno gwasanaethau integredig a chyllidebau cyfunol (lle bo'n briodol).

6 POLISI'AU CYFLOGAETH A TGCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith yr adroddiad yn argymhell mabwysiadu'r pedwar polisi cyflogaeth sydd wedi eu datblygu/hadolygu. Mae'r adroddiad yn manylu ar y ddau bolisi newydd ac yn amlygu'r newidiadau arfaethedig o fewn y polisiâu presennol a'r rhesymau am hynny. Ymgynghorwyd â'r Undebau ac maent yn hapus efo'r polisiâu.

Y polisiâu dan sylw yw -

- (1) Polisi Diogelwch Gwybodaeth TGCh (Polisi Diwygiedig)
- (2) Polisi Lles a Chymorth (Polisi Newydd)
- (3) Gweithdrefn Dychwelyd i'r Gwaith yn Raddol (Gweithdrefn Newydd)
- (4) Polisi Teithio (Polisi Diwygiedig)

Dywedwyd bod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol unwaith eto wedi methu ffurfio cworwm o ochr y gweithwyr. Cadarnhawyd bod yr undebau wedi ymgynghori ar y polisiâu y tu allan i'r cyfarfod a bod hynny wedi arwain at newid geiriad y Polisi Lles a Chymorth o ran amseroedd triniaethau wrth dderbyn cymorth cwnsela a gwasanaethau ffisiotherapi/osteopathi. Mae'r holl ddiwygiadau terfynol wedi eu cytuno arnynt gan yr Undebau cyn cyflwyno'r dogfennau polisi i'r Cabinet.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn mabwysiadu'r polisiâu cyflogaeth fel y manylwyd yn yr adroddiad.

7 STRATEGAETH AR GYFER ATAL A CHANFOD TWYLL, LLYGREDIGAETH A LLWGRWOBRWYAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer atal a chanfod twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwaeth, i'w chymeradwyo. Mabwysiadwyd y strategaeth flaenorol yn 2006 ac mae'r drafft diweddaraf wedi ei diweddarau i ystyried y datblygiadau deddfwriaethol, technolegol a phroffesiynol newydd ac i gynnwys neges glir na fyddai'r Cyngor yn goddef amhriodoldeb.

Yn ystod y drafodaeth gofynnwyd cwestiynau ynghylch y camau i ddelio ag ystod o weithgareddau twyllodrus ynghyd ag unrhyw ddiwygiad o ran arfer gorau.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fel a ganlyn -

- Eglurwyd y byddai'r Cyngor yn parhau i fabwysiadu dull rhagweithiol o atal gweithgareddau twyllodrus gyda'r strategaeth ddiwygiedig yn nodi sefyllfa'r Cyngor yn glir yn y cyswllt hwnnw a'r rheolaethau ar waith.
- Dywedodd fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gyfrifol am ddelio ag erlyniadau yn ymwneud â thwyll budd-daliadau ond, er gwybodaeth, bod yr adran tai/treth y cyngor wedi derbyn copi o'r strategaeth.
- Ers mabwysiadu'r polisi yn 2006 mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi cyhoeddi canllawiau newydd gyda mwy o bwyslais ar adnabod risg.
Mae'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol bellach yn cyfeirio at hyrwyddo gwylidwriaeth a lleihau risg ac mae gwaith hefyd wedi ei wneud i greu diwylliant gwrth-dwyll effeithiol gydag ystod o strategaethau eraill yn eu lle i hyrwyddo gwylidwriaeth ynghyd â chamau i'w cymryd pan ganfyddir gweithgareddau twyllodrus.
- Mae gan y Cyngor amrywiaeth o fesurau i ddiogelu yn erbyn twyll ar y rhyngwrwyd gan gynnwys systemau TG a chaffael electronig diogel a gwiriadau adnabod.
Pob blwyddyn, fel rhan o Rwydwaith y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid i'r Cyngor gyrraedd safonau llywodraeth llym o ran diogelwch.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyfaeth fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2015/16

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn diweddarau'r Cabinet ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys gan ddangos cydymffurfiaid â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2015/16.

Wrth grynhoi'r adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at y cefndir economaidd a'i effaith ar weithgareddau rheoli'r trysorlys. Tynnodd sylw at y prif bwyntiau o ran benthyca a gweithgarwch buddsoddi, gan gynnwys tu i adael cytundeb Cynllun Ariannu Preifat Neuadd y Sir a thalu i adael y Cymhorthdal Refeniw Tai, a fydd yn arwain at arbedion sylweddol i'r awdurdod. Cadarnhaodd hefyd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddangosyddion darbodus, a rhoddodd wybodaeth am y dangosyddion hynny (gweler Atodiad B yr adroddiad). Atgoffodd y Prif Swyddog Cyllid bod gweithgarwch benthyca'r Cyngor yn cael ei gymell gan ei wariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r cynllun cyfalaf. Yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd bu'r marchnadoedd ariannol yn anwadal am gyfnod. Nododd y Cabinet bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn diweddariad rheolaidd ar weithgareddau rheoli'r trysorlys.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Trafodwyd y cyhoeddiad diweddar y gall banciau gyflwyno cyfraddau llog negyddol, a fyddai'n golygu y byddent yn dechrau codi tâl ar dderbyn adneuo gan gwsmeriaid busnes.
Cadarnhawyd y byddai hynny'n effeithio ar yr arian yng nghyfrif cyfredol y Cyngor ac, os cyflwynir mesur o'r fath, byddai angen rheoli'r risg yn ofalus i gyfyngu ar amlygiad y Cyngor mewn perthynas â chadw arian mewn cyfrifon cyfredol. Gall hynny wedyn arwain at addasu'r strategaeth bresennol er mwyn adneuo mwy o arian parod gyda'r trysorlys yn hytrach na banciau.
- Mae'r strategaeth rheoli trysorlys yn seiliedig ar gydbwysu risg gydag elw ar fuddsoddiad. Yn ystod yr wyth mlynedd ddiwethaf mae'r enillion wedi bod yn isel iawn o gymharu â'r blynyddoedd cyn hynny ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi bod yn wylidwrus.
- Cyfeiriwyd at y strategaeth fenthycu bresennol fel modd o bennu symiau benthyca a chyfnodau ad-dalu - eglurwyd bod y strategaeth yn cael ei rheoli drwy'r portffolio dyled presennol a'r dyddiadau aeddfedrwydd ynghyd â gofynion cyllido cyfalaf; mae'r proffil dyled yn cael ei ystyried dros gyfnod o hanner can mlynedd.
- Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch statws credyd y banciau ac arddododd y Prif Swyddog Cyllid ar ddiweddiadau amser real a ddarperir i'r Cyngor gan ei ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd, i sicrhau y gweithredir ar unwaith i ddiogelu arian parod dan yr amgylchiadau hynny ac y caiff y sefyllfa ei monitro'n gyson. Yn ôl y cyngor diweddaraf nid oes angen cymryd unrhyw gam mewn perthynas â hynny.

Roedd y Cabinet hefyd yn pryderu ynghylch yr ansicrwydd ariannol a wynebai'r llywodraeth leol a'r economi leol a chenedlaethol ehangach, ac ynghylch effaith y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd. Gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r aelodau yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiad yn hyn o beth ac y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa i ddylanwadu ac ymateb yn gyflym er mwyn gwneud y gorau o unrhyw fudd i'r sir.

PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2015/16.

9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd gorwariant net o £0.402 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- rydym ni wedi llwyddo i gyrraedd 42% o'r targed ar gyfer arbedion (£5.2 miliwn), ac yn gwneud cynnydd da ar ganfod 25% arall o'r arbedion - mae nifer o arbedion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bydd y canlyniadau'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol
- amlygodd y risgiau cyfredol a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- rhoddwyd diweddiariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- Cyfeiriodd y Cynghorydd David Smith at yr angen i fynd i'r afael â'r gorwariant parhaus yng nghyllideb Cludiant Ysgol yn y cylch cyllideb nesaf gyda golwg ar ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chost lawn y ddarpariaeth.
- Mae'r Cyngor hefyd yn mynd i gostau ychwanegol yn sgil methiant cwmni GHA Coaches. Mae'r Cyngor wedi ceisio cyflenwi cynifer o'r gwasanaethau bysiau hynny ag y bo modd.
Soniodd y Cynghorydd Smith am gyfarfod sydd ar y gweill gyda'r Gweinidog dros yr Economi a Seilwaith i drafod pa gymorth all Llywodraeth Cymru ei ddarparu yn hynny o beth. Trafodwyd y goblygiadau o ran cost a dichonoldeb llwybrau bysiau penodol yn y dyfodol, ac awgrymwyd y dylid codi'r pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli gwasanaethau bysiau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gyda'r Gweinidog. Sicrhaodd y swyddogion fod y broses dendro ar gyfer gwasanaethau yn gadarn, gan gynnwys meini prawf pris ac ansawdd, ac y byddai'n rhaid i gontractwyr basio profion diwydrwydd dyladwy trylwyr cyn caiff y contract ei ddyfarnu. Yn anffodus, yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni, gall amgylchiadau cwmnïau newid yn eithaf cyflym. O ran y ddarpariaeth gludiant yn y dyfodol, efallai y bydd angen model diwygiedig neu ddull arloesol sy'n cynnwys y gymuned. Argymhellodd yr Arweinydd y dylid ail-ffurfio'r Fforwm Cludiant Gwledig, neu ffurfio fforwm tebyg i drafod y pryderon a'r ffordd ymlaen
- Cyfeiriwyd at y pwysau mewn perthynas â chontract Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gyda rhai aelodau o staff wedi eu symud i feysydd gwasanaeth eraill er mwyn lleihau costau a gwaith wedi ei gyfyngu i glirio eira a graeanu.
Gellir codi'r pryderon ynghylch rôl Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru gyda'r Gweinidog newydd yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref a gweld a yw o'r un farn â'r Gweinidog blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd Huw Williams ei fod yn bryderus ynghylch cyflwr gwael yr A5 ac eglurodd y Cynghorydd David Smith mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn ac argymhellodd y dylai gysylltu â'r Gweinidog yn uniongyrchol.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at benderfyniad y Cabinet i sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu balansau ysgolion a dywedodd fod y gwaith wedi dechrau. Cyfeiriodd hefyd at brosiect Ysgolion Cynradd Rhuthun, fel y manylir yn Atodiad 4 i'r adroddiad, a gofynnodd, er tryloywder, i gyfanswm cost y prosiect yn ogystal â'r dichonoldeb / elfen dylunio gael ei gynnwys yn yr adroddiadau o hyn allan.
- Dywedwyd y byddai pwysau chwyddiant, fel gweithredu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a chynnydd mewn ffioedd cartrefi gofal yn cael eu lleihau drwy gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau yn 2016/17. Fodd bynnag, ateb tymor byr yw hyn a bydd angen mynd i'r afael â hyn yn y tymor hwy.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch prosiectau ailwampio ysgolion eraill sydd angen buddsoddiad cyfalaf, dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams fod gwaith wedi ei wneud i nodi meysydd ar gyfer buddsoddi yn barod ar gyfer cyllid Band B a fydd yn cael ei lansio cyn bo hir.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol -

- Darpariaeth Ffydd Uwchradd - symud o fis Gorffennaf i fis Medi
- Diweddariad ar brosiectau a ariennir drwy'r Cynlluniau Tref ac Ardal – mis Medi
- Hen Ysbyty Gogledd Cymru (Gorchymyn Prynu Gorfodol) - mis Mehefin
- Adroddiad Monitro Blyneddol 2016 y Cynllun Datblygu Lleol ac Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol – mis Hydref

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD, dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail fod tebygrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13 ac 14 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11 DATBLYGIAD ADDYSGOL GLASDIR (ADEILADAU YSGOL A CHYFLEUSTERAU NEWYDD AR GYFER YSGOL STRYD Y RHOS AC YSGOL PEN BARRAS, RHUTHUN)

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract adeiladu ar gyfer datblygiad addysgol Glasdir. Mae'r prosiect yn cynnwys adeiladu ysgol a chyfleusterau newydd ar gyfer Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras.

Wrth ystyried yr adroddiad nododd yr aelodau y broses gaffael ynghyd â'r gofynion ariannu a'r amserlen a ragwelir ar gyfer cwblhau. Ymatebodd y Cynghorydd Williams i wahanol faterion a godwyd ynghylch y datblygiad a soniodd am gadernid y broses ar gyfer cyfrifo nifer y disgyblion presennol a'r nifer yn y dyfodol gyda digon o fodd i ehangu yn y dyfodol os oes angen. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch y dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y prosiect a'r hyblygrwydd o ran arian at raid. Cyfeiriwyd hefyd at y gobaith ar gyfer safleoedd yr ysgolion presennol, sydd wedi ei ddogfennu'n dda o ran darparu tai gofal ychwanegol. Dywedodd y Cynghorydd David Smith fod arno eisiau eglurhad ynghylch y mesurau i'w rhoi ar waith i sicrhau llwybr diogel i'r ysgol, gan ychwanegu y dylai'r datblygwr gwrdd â'r gost honno.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penderfyniad terfynol i lunio contract ffurfiol gyda'r contractwr a enwyd fel y nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer Cam 3 y contract yn ymwneud â phrosiect Datblygiad Addysgol Glasdir yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor, yn amodol ar y pecyn cyllido cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ddim yn cael ei rhagori.

12 TYN Y CELYN, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD, RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo datgan y fferm a'r tir yn weddill i anghenion a'i waredu wedi hynny ar y farchnad agored.

Ystyriodd y Cabinet rinweddau'r cynnig gan nodi bod y camau gwaredu yn cydymffurfio â strategaeth stadau amaethyddol y Cyngor ac y byddai'n cynhyrchu derbyniad cyfalaf sy'n darparu cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf. Byddai cadw tua 25 acer yn rhoi cyfle i osod y tir i newydd-ddyfodiad i ffermio. Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i newydd-ddyfodiaid ac roedd y Cynghorydd David Smith yn awyddus bod ymgeiswyr gyda chymhwyster amaethyddol yn cael blaenoriaeth. Roedd arno hefyd yn awyddus i'r colegau lleol gefnogi'r newydd-ddyfodiad. Soniodd y Cynghorydd Eryl Williams bod sefydliadau eraill yn darparu cyfleoedd yn Eryri. Dywedodd swyddogion fod trafodaethau wedi eu cynnal o'r blaen gyda choleg ynghylch ffyrdd o gynorthwyo newydd-ddyfodiaid a bod ymchwil wedi ei gynnal mewn perthynas â chyfleoedd eraill a oedd ar gael. Amlygwyd yr angen i gynnal proses ddethol agored a bod y cynnig yn dal yn cael ei ddatblygu ac y bydd y Gweithgor Stad Amaethyddol yn cael mewnbwn yn y broses ddethol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Eryl Williams yr angen i sicrhau gwerth am arian gydag isafswm pris yn cael ei gosod a gofynnodd am ystyriaeth bellach i rannu'r tir yn lotiau i sicrhau'r incwm mwyaf posibl. Roedd yn pryderu, heb rannu'r tir yn lotiau cywir, y gallai'r tir gael ei werthu gan y perchennog newydd am bris uwch yn y tymor byr. Manylodd y swyddogion ar y broses brisio a gwaredu trwyadl a defnyddio amod gorswm i warchod buddiannau'r Cyngor yn y dyfodol mewn perthynas ag unrhyw ganiatâd cynllunio. Ymhelaethwyd ymhellach ar y rhesymeg y tu ôl i rannu'r tir ac, mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, cytunwyd i roi ystyriaeth bellach i rannu'r tir yn lotiau a chytunodd y Cabinet i ddiwygio'r penderfyniad i adlewyrchu'r camau hynny.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo -

- (a) *datgan Fferm Tyn y Celyn, sy'n dod i gyfanswm o tua 10.32 ha (25.47 acer) fel y dangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A i'r adroddiad, yn weddill i anghenion ac yn cymeradwyo cael gwared ar y fferm ar y farchnad agored, ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i lotio'r safle a chyngor prisiad proffesiynol ynghylch y cynnig mwyaf manteisiol ar gyfer y Cyngor;*
- (b) *cadw tua 10.42 ha (25.74 acer) o dir moel a ddangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A i'r adroddiad er mwyn gosod y tir hwn i newydd-ddyfodiad i ffermio;*
- (c) *y dylai cyfran o'r derbyniadau cyfalaf, sef oddeutu £50,000, sy'n codi o'r gwaredu gael ei gadw a'i ddefnyddio er mwyn galluogi darparu adeilad amaethyddol/sylfaen ar gyfer gweithrediadau fel rhan o osod y tir moel, ac yn*
- (d) *cymeradwyo datgan y 10.42 ha (25.74 acer) sy'n weddill o dir a ddangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A i'r adroddiad yn weddill i anghenion ac yn cymeradwyo cael gwared ar y tir hwn ar y farchnad agored pe na fod wedi bod yn bosibl i osod y tir hwn i newydd-ddyfodiad o fewn cyfnod o 12 mis.*

13 LODGE FARM, DINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn argymhell y dylai'r Cabinet gymeradwyo datgan y fferm a'r tir yn weddill i anghenion a'i waredu wedi hynny fel y nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet rinweddau'r cynnig, sy'n cydymffurfio â strategaeth statau amaethyddol y Cyngor, a nodi'r amodau gorswm sydd yn eu lle i warchod budd y Cyngor yn y safle yn y dyfodol. Dywedwyd hefyd y byddai'r tir sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer tai yn cael ei gadw.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo datgan Lodge Farm, Dinbych (fel y dangosir gydag amlinelliad coch yn Atodiad A sydd ynghlwm wrth yr adroddiad) yn weddill i anghenion ac yn cymeradwyo cael gwared ar y fferm fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **27 Medi 2016**

Aelod / Swyddog Arweiniol: **Y Cyng. David Smith - Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus
Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau
Amgylcheddol**

Awdur yr Adroddiad: **Peter Daniels**

Teitl: **Gwasanaethau Bws Lleol a Chludiant Addysg**

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Gan fod cyflenwr bysiau a choetsys mwyaf i deithwyr yn ne Sir Ddinbych wedi mynd i'r wal ym mis Gorffennaf 2016 (GHA Coaches Ltd), mae'r gwasanaeth i deithwyr bellach yn dameidiog. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y camau a gymerwyd yn syth wedyn ac yng ngoleuni costau yn y dyfodol, yn ystyried strategaeth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Bydd gorwariant yng nghyllideb gwasanaethau bws lleol ar gyfer 2016/17 yn sgil gwasanaethau sydd wedi'u hadfer yn dilyn cwmp GHA Coaches. Felly mae angen penderfyniad i gymeradwyo'r camau a gymerwyd gan y swyddogion ar y cyd â'r Aelod Arweiniol i gymryd lle'r gwasanaethau hynny. Mae angen cytundeb hefyd ar y strategaeth ar gyfer gwasanaethau bws lleol yn y dyfodol.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Cabinet yn:

- (a) Cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan swyddogion i lenwi bylchau yn y gwasanaeth yn dilyn cwmp GHA, h.y. cefnogi'r meini prawf (a amlygwyd ym mharagraff 4.5) a ddefnyddir i ailsefydlu'r gwasanaethau hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.
- (b) Cytuno y bydd y cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu at rai o'r costau ychwanegol yn ystod 2016/17 (ar y dybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad ariannol ychwanegol hefyd).
- (c) Cytuno y dylai trafodaethau am y gyllideb ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol yn y dyfodol ffurfio rhan o'r gweithdai gyllideb sydd ar ddod.

4. **Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 Daeth GHA Coaches Ltd i ben ar ôl eu gweithrediad olaf ar 13 Gorffennaf 2016. Roedd GHA yng ngofal nifer sylweddol o gontractau bysiau addysg. Roedd hefyd yng ngofal yr holl wasanaethau bws lleol i'r de o Ddinbych, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cefnogi yn ariannol gan y Cyngor.

- 4.2 Arweiniodd pryderon ym mis Ebrill ynghylch GHA at swyddogion yn trafod risg a llunio cynllun wrth gefn. Ym mis Gorffennaf, fe ailgyflwynodd swyddogion cludiant ysgol fel prif flaenoriaeth. Yn ystod mis Awst, cafodd pob contract ysgol GHA a oedd ar gau i'r cyhoedd eu tendro.
- 4.3 Cafodd gwasanaethau bws lleol eu hadfer, yn rhannol o leiaf, yn raddol o 14 Gorffennaf, 2016 yn unol â'r cynllun wrth gefn. Mae cyn wasanaethau GHA sy'n cael eu cefnogi yn rhedeg ar hyn o bryd naill ai ar ddyfyniadau argyfwng neu gytundebau de minimis (h.y. trefniadau nad oes angen dyfynbris) nes y gwneir penderfyniad ynghylch y strategaeth yn y dyfodol, ac ar hynny bydd swyddogion yn eu tendro.
- 4.4 Ar gyfer gwasanaethau bws lleol, sail y cynllun wrth gefn oedd sicrhau bod pob cymuned a wasanaethir gan fws yn parhau i elwa o ryw fath o wasanaeth. Ychydig o wasanaethau a gafodd eu hadfer yn llawn a hyd yn hyn, mae swyddogion wedi mabwysiadu dull pragmatig wrth eu hamnewid. Er enghraifft, os oes cyfran uchel o symudiadau addysg, roedd modd cynnig gwasanaeth mwy cyflawn. Ar y llaw arall, cafodd rhai siwrneiau dros elfennau gwannach o'r rhwydwaith eu lleihau neu eu hatal dros dro tra'n disgwyl penderfyniadau a dealltwriaeth bellach o'r gyllideb yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys rhywfaint o siwrneiau fin nos/dydd Sul a rhywfaint o lwybrau mwy gwledig sydd erbyn hyn â llai o siwrneiau.
- 4.5 Roedd y cynllun wrth gefn yn ymdrin yn benodol ynghylch pa deithiau y dylid eu cynnwys. Yn fras, mae hyn yn golygu adfer yn gyfan neu'n rhannol:
- (i) Gwasanaethau strategol i lefel resymol (o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, yn ystod y dydd).
 - (ii) Llwybrau eilaidd i lefel resymol, yn enwedig y rhai gyda dysgwyr.
 - (iii) Llwybrau trydyddol megis llwybrau lleol a'r rhai i ardaloedd mwy gwledig, fel y bo'n briodol i lefel o wasanaeth y gellir ei gyfiawnhau o fewn yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael, fel y gallai preswylwyr ymgymryd â'u busnes personol.
 - (iv) Gwasanaethau fin nos/nos Sul gyda symudiadau arwyddocaol hysbys sy'n gysylltiedig â gwaith.
- 4.6 I ddechrau, roedd teithwyr i weld yn fodlon a hyd yn oed yn teimlo rhyddhad bod o leiaf rhyw fath o wasanaeth wedi parhau. Gydag amser, roedd pryder cynyddol bod llai o adfer gwasanaethau yn rhoi teithwyr dan anfantais.

Goblygiadau ariannol

- 4.7 Mae'r sefyllfa yn parhau i fod braidd yn ansicr ac yn enwedig ar gyfer gwasanaethau bws lleol, roedd nifer o newid contractwyr wrth i amser fynd rhagddo. Mae cydweithwyr cyfrifyddiaeth wrthi'n craffu ar ffigurau cyn y gellir adrodd ar ffigwr lawn. Mae'r costau ychwanegol ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn fel a ganlyn:

- (a) Cludiant addysg

<u>Costau ychwanegol ôl-GHA</u>		2016/17 (rhan o'r flwyddyn)	2017/18 (blwyddyn lawn)
Cludiant addysg CSDd	Wedi'u hariannu'n uniongyrchol gan y gyllideb cludiant addysg Cyngor Sir Ddinbych	£118,000	£186,000

Ychwanegiadau Ysgol Dinas Brân	Wedi'i ariannu gan addysg	£41,000	£64,000
Dyffryn Clwyd	Wedi'i ariannu gan y consortiwm	£16,000	£25,000
Cyfanswm		£175,000	£275,000

(b) Gwasanaethau Bws Lleol

4.8 Y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, o ran gwasanaethau bysiau, yw bod y Cyngor yn debygol o wario £43,000 yn ychwanegol yn ystod 2016/17, heb dalu am holl gyn siwrneiau GHA a heb ddarparu cerbydau hygyrch addas ar bob taith (h.y. nid oes modd defnyddio cadair olwyn ar bob taith). Mae'r tanwariant a ragwelwyd yn flaenorol o £10,000 yn 2016/17, felly nawr yn arwain at orwariant cyllideb net amcanol o £33,000.

4.9 Petai'r swyddogion wedi amnewid gwasanaethau tebyg-am-debyg, byddai'r gost ychwanegol ar gyfer 2016/17 tua £247,000. Noder y byddai angen i unrhyw dendrau yn y dyfodol gynnwys hygyrchedd, ac mae'r elfen hon yn anochel. Felly, efallai y bydd angen torri gwasanaethau er mwyn ariannu gwelliannau hygyrchedd os bydd y gyllideb yn parhau'n sefydlog ar gyfer 2017/18.

Costau ychwanegol amcangyfrifedig ôl-GHA		2016/17 (rhan o'r flwyddyn)	2017/18 (blwyddyn lawn)
Gwasanaethau bws fel yr adferwyd	Wedi'u hariannu'n uniongyrchol o gyllideb bysiau lleol Cyngor Sir Ddinbych a grant LIC	£43,000	£60,000
Heb danwariant amcanol i gyllideb GBLI cyn cwmp GHA		£10,000	£14,000
Effaith net is-gyfanswm ar y gyllideb		£33,000	£46,000
Ychwanegu costau llawn o wasanaethau/ mynediad hygyrch sydd heb eu hamnewid		£247,000	£348,000
Cyfanswm		£280,000	£394,000

4.10 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn barod i helpu yn ariannol gyda'r costau ychwanegol yn ystod 2016/17 o ganlyniad i gwmp GHA Coaches.

Cynllun Gwaith i'r Dyfodol

(a) Gwasanaethau Addysg

4.11 Yn y tymor canolig, amnewid gwasanaethau presennol trwy gontract yw'r unig ddewis. Yn y tymor hwy, gallai'r Cyngor, er enghraifft, ystyried gweithredu ei fflyd ei hun unwaith eto.

(b) Gwasanaethau Bws Lleol

4.12 Y gyllideb bysiau lleol yn 2014/15 oedd £419,000. Torrodd yr Aelodau hyn lawr i £235,000 yn 2015/16 heb unrhyw doriad pellach yn 2016/17. Mae grant y llywodraeth o £435,000 wedi aros fwy neu lai'r un fath ers 2013/14. Y swm o arian sydd ar gael yn 2016/17 felly yw £670,000, sydd 20% yn is na 2014/15.

4.13 Ni fu unrhyw benderfyniad ynghylch cyllideb y cyngor ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol ar gyfer 2017/18. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod y costau, ôl-GHA, yn cynyddu'n sylweddol, a bydd unrhyw gyllid lliniaru *ychwanegol* y llywodraeth ar gyfer 2016/17 yn dod i ben. Nid yw'n glir ychwaith a fydd grant *safonol* y llywodraeth yn parhau fel y mae. Felly, mae'n ddoeth ystyried beth yn union y gall y Cyngor ei fforddio yn y dyfodol.

4.14 Cynigir bod yr aelodau'n trafod lefel y gyllideb yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau bws lleol fel rhan o'r gweithdai gyllideb sydd ar ddod. I gynorthwyo aelodau, mae swyddogion wedi llunio rhestr awgrymedig o feini prawf ar gyfer blaenoriaethu gwasanaethau. Amlinellir hyn yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, ynghyd â bras gostau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl: mae cyfran sylweddol o ddefnyddwyr bysiau yn tueddu i fod yn bobl ddiamddiffyn, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl (hyd at 100% o ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig iawn).

Datblygu'r economi lleol: mae'n sicrhau y gall trigolion sydd heb gludiant eu hunain fod yn economaidd weithgar drwy ddarparu siwrneiau sy'n gysylltiedig â gwaith ac wrth gael mynediad i addysg.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae rhyngberthynas gref rhwng cyllidebau trafniadaeth gyhoeddus ac addysg. Mae'r ddau yn cael eu rheoli ar hyn o bryd gan Bennaeth Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb blaenorol ar gyfer yr 2015/16 a'r toriadau arfaethedig (a ataliwyd) 2016/17, yn dangos y byddai yna effaith anghymesur ar bobl hŷn, pobl iau, pobl anabl a phobl ddiamddiffyn. Pobl fel hyn sydd yn dueddol o ddefnyddio'r gwasanaethau bws fwyaf. Roedd hyn felly yn rhan o'r meddylfryd ynghylch sicrhau fod pob cymuned a wasanaethir gan fws yn parhau i elwa o rhyw fath o wasanaeth. Bydd angen ystyried hyn ymhellach fel rhan o unrhyw drafodaethau am y gyllideb ar gyfer cludiant cyhoeddus yn y dyfodol.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Nid oedd cyfle i ymgynghori o fewn amserlen y cwmp. Roedd rhaid i swyddogion ymateb mewn sefyllfa o argyfwng.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Cyngor yn disgwyl cefnogaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am ran o'r gwariant ychwanegol yn 2016/17. Bydd unrhyw fylchau canlyniadol yn orwariant a ganiateir a chaiff ei drin yn rhan o sefyllfa gyffredinol y gwasanaeth a'r Cyngor sy'n cael ei adrodd i'r Cabinet drwy'r Adroddiad Cyllid misol. Bydd y sefyllfa gyllido barhaus y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon yn cael ei ystyried fel rhan o gylich y gyllideb ar gyfer 2017/18.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- Risg i enw da o ran lleihad mewn trafndiaeth gyhoeddus (wedi'i liniaru drwy sicrhau bod pob cymuned yn cael rhyw fath o wasanaeth).
- Effaith economaidd ar ganol trefi a gostyngiad pellach yn nifer yr ymwelwyr (yn wahanol i leoliadau y tu allan i'r dref, mae'r bws yn dda yn cyrraedd canol trefi) (dim lliniaru).

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gwasanaethau cludiant ysgol yn statudol pan fyddant yn diwallu Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008. Mae gwasanaethau bws lleol yn ddewisol (noder fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau bws lleol yn cario Dysgwyr sydd â hawl statudol). Mae pwerau i dendro gwasanaethau bws lleol o fewn y Ddeddf Trafnidiaeth 1985.

ATODIAD

Darpariaeth yn y Dyfodol a awgrymir ar gyfer Gwasanaethau Cludiant i Deithwyr

Cynllun Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Tirwedd Newydd

(a) Gwasanaeth Addysg

Yn y tymor canolig, ailosod gwasanaethau presennol trwy gontract yw'r unig ddewis. Yn y tymor hwy, gallai'r Cyngor ystyried gweithredu ei fflyd ei hun unwaith eto.

(b) Gwasanaethau Bws Lleol

Byddai blaenoriaeth awgrymedig fel a ganlyn, mewn bras drefn o bwysigrwydd. Byddai angen sicrwydd cyllid er mwyn ariannu pob un o'r rhain. Mae cynllun o'r fath yn eithaf cyson â chyn Strategaeth Rhwydwaith Taith:

		Cost amcangyfrif net dangosol y flwyddyn i'r gyllideb gwasanaeth bws	Effaith gronnus
1	Sicrhau bod gwasanaethau strategol na weithredir yn fasnachol yn cael eu rhedeg ar Llun i ddydd Sadwrn, yn ystod y dydd	£314,000	£314,000
2	Sicrhau bod llwybrau eilaidd hefyd yn cael eu cynnwys, yn enwedig y rhai sy'n cario nifer sylweddol o ddysgwyr (mae'r rhain yn lleihau'r gost allfrig i'r Cyngor). Bydd lefel y gwasanaeth yn cael ei benderfynu gan y galw, a swm y cyllid o'r gyllideb cludiant addysg	£215,000	£529,000
3	Ystyried ffyrdd eraill o ariannu rhagor o wasanaethau bws "trydedd haen" yn y gymuned (gweler isod)	£224,000	£753,000
4	Cynnwys llwybrau strategol fin nos/dydd Sul sydd ddim yn cael eu darparu'n fasnachol pan fo symudiadau wedi'u nodi sy'n gysylltiedig â gwaith	£22,000	£775,000
5	Cynnwys gwasanaethau strategol eraill fin nos/nos Sul	£200,000	£975,000
6	Cynnwys nosweithiau sy'n weddill/Sul	£15,000	£990,000
		£990,000	£990,000

Bydd y ffigurau gwirioneddol yn dibynnu ar y tendrau a dderbyniwyd a'r ad-daliadau rhwng gwasanaethau bws lleol a chyllideb cludiant addysg. Mae amcangyfrifon yn tybio cerbydau hygyrch.

Y gyllideb ar gyfer 2016/17 yw £669,000. Felly, y ffigur amcangyfrifedig ychwanegol i dendr i amnewid tebyg at ei debyg, fyddai £321,000.

Mae sgôp yn gyffredinol, ac yn enwedig o fewn y gwasanaethau "trydedd haen" i wneud arbedion. Hyd yn hyn, mae swyddogion wedi bod yn fedrus wrth uno gwasanaethau gyda chyllidebau sydd ar gael.

Yn gysylltiedig â hyn, ac wrth ystyried rhaniad ôl-GHA lle mae gwasanaethau yn cael eu lledaenu ar draws nifer o weithredwyr, mae cyflwyno tocyn rhwydwaith ffurfiol yn caniatáu i deithwyr ddefnyddio tocyn i'w galluogi i symud yn hawdd rhwng

gwasanaethau, waeth pwy yw'r gweithredwr. Roedd hyn yn llai o flaenoriaeth pan roedd rhwydwaith unedig yn ne Sir Ddinbych.

Gwasanaethau Trydedd Haen

Yn hytrach na disgwyl i Lywodraeth Cymru dalu am yr holl gostau ychwanegol yn y tymor hir, gallai fod yn fwy buddiol i edrych ar ddewisiadau eraill a cheisio cyllid sy'n meinhaus'n raddol gan Lywodraeth Cymru i'w sefydlu, gyda'r bwriad o fod yn rhannol hunangynhaliol yn y dyfodol.

Efallai y byddai model amgen ar gyfer ardal fwy gwledig rhwng llwybrau bws strategol yn fwy priodol. Mae ardaloedd o'r fath yn cynnwys y rhai i'r de a'r gorllewin o Ruthun; yr ardal o amgylch Corwen; ac i'r gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin o Ddinbych. Mae hi bellach yn anodd cynnwys y rhain ac ar gost resymol.

Mae gan bob datrysiad gryfderau a gwendidau, ond fe allent gynnwys:

- Y Cyngor yn gwasanaethu yn uniongyrchol
- Y Cyngor yn prydlesu cerbydau i grwpiau neu weithredwyr cymunedol
- Cynllun ceir cymunedol
- Cymysgedd o rai o'r uchod lle y gallai cerbyd bach hygyrch ymgymryd â llwybrau ysgol y bore a'r prynhawn a bod ar gael ar gyfer gwasanaeth lled-alw/sefydlog rhwng oriau brig ysgol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	27 Medi 2016
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd
Awdur yr Adroddiad:	Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Teitl:	Diweddariad prosiectau a ariennir gan TAP

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Grŵp Hyrwyddwyr Tref wedi cyfarfod i ystyried cynnydd y prosiectau sy'n weddill sy'n deillio o'r Cynlluniau Tref ac Ardal. Dyma eu hargymhellion.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Grŵp Hyrwyddwyr Tref wedi ystyried sefyllfa'r prosiectau sy'n weddill ac yn hoffi argymhell bod y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl i rai, a bod eraill yn cael eu hariannu yn eu lle.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y cyllid heb ei ymrwymo sy'n gyfanswm o £100,000 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r cynlluniau a nodwyd yn yr adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

Ym Mehefin 2015, cynhaliodd y Grŵp Hyrwyddwyr Tref adolygiad trwyadl a blaenoriaethu prosiectau a ariennir gan TAP. Mae'r rhain yn brosiectau 'Gorwel', roedd disgwyl i bob un ohonynt fod wedi'u cwblhau erbyn mis Mai 2017. Ers hynny, mae'r grŵp wedi bod yn monitro eu cynnydd, gan gynnwys cynllunio i ail-ddyrannu unrhyw danwariant prosiect a allai godi.

Mae'r Hyrwyddwyr Tref yn pryderu bod rhai prosiectau ar y rhestr yn ymddangos mewn perygl o beidio â chael eu cyflawni o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Sef:

Llyfrgell Llanelwy	£100,000
Pafiliwn Corwen	£50,000
Prosiect cyn ysgol Llangollen	£30,000

Yn y cyfarfod Hyrwyddwyr Tref 25 Gorffennaf, cafodd pob un o'r tri phrosiect hyn eu hadolygu a daeth Aelodau i'r casgliad:

- Dylai'r cyllid ar gyfer prosiect pafiliwn Corwen barhau i fod ar gael, gan fod gwybodaeth gyfredol yn dangos y byddai'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno o fewn yr amserlen.
- Roedd y cynnig gwreiddiol ar gyfer prosiect cyn ysgol Llangollen wedi bod yn anymarferol, fodd bynnag, roedd cynnig addasedig wedi ei gyflwyno i wella'r

adeilad presennol yn lle hynny. Ystyriodd yr Aelodau bod hwn yn darparu canlyniadau gwell tebyg i blant cyn-ysgol ac fe allai gael ei gyflwyno yn yr amser sydd ar gael, ond roeddent eisiau mwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad.

- Ystyriodd yr Aelodau gynnig a oedd wedi'i ymestyn yn sylweddol ar gyfer prosiect Llyfrgell Llanellwyr. Fe wnaethant ofyn am fwy o wybodaeth am hyn, er mwyn penderfynu a ddylid cefnogi'r cynnig diwygiedig hwn neu gyfyngu ar gyllid i'r cynllun gwreiddiol. Roedd Aelodau hefyd eisiau bod yn hyderus y gallai naill fersiwn neu'r llall o'r cynllun hwn gael ei gyflwyno yn yr amserlen sydd ar gael.

Yn y cyfarfod blaenorol ar 28 Mehefin, roedd y grŵp wedi gofyn am gynigion gan Aelodau am brosiectau a allai ddefnyddio'r tanwariant disgwylidig ar y pryd o £49,000. Yn ystod yr adolygiad o brosiectau cyfredol, nodwyd tanwariant pellach o £20,000 ar y cynllun Llwybr Cyswllt Llantysilio, ac felly roedd hyn hefyd wedi'i ychwanegu at y pot sydd ar gael, gan wneud cyllid o £69,000 ar gael ar gyfer ail-ddyrannu.

Roedd 17 o gynigion wedi'u cyflwyno i'r grŵp, ac fe gafodd y rhain eu hasesu gan ddefnyddio'r un system sgorio â'r cynigion gwreiddiol. Cafodd dau brosiect eu hailasesu hefyd yn y cyfarfod ar ôl cyflwyno gwybodaeth ychwanegol. Ar sail yr asesiadau hyn, penderfynodd y grŵp argymhell i'r Cabinet y dylai'r cynigion canlynol gael eu hariannu:

Clwb Chwaraeon Llangollen - offer torri gwair newydd	£ 5,400
Pentre-dŵr - ailwampio Canolfan Gymunedol	£ 3,000
Gwelliannau amgylcheddol Cuning Green	£ 1,500
Hygyrchedd Canolfan Gymunedol Llyfrgell Rhuddlan	£12,000
Gwelliannau Amddiffyn Arfordirol y Rhyl Cam 2	£35,000
Placiau Pres Llwybr Clawdd Offa, Prestatyn	£ 5,000
Cyfanswm	£61,900

Yng nghyfarfod Pencampwyr Tref 6 Medi, ystyriodd yr Aelodau wybodaeth bellach am y rhestr o brosiectau a flaenoriaethwyd. O ganlyniad, penderfynodd yr Aelodau gefnogi cyllid parhaus cynllun Llyfrgell Llanellwyr fel y'u *cyflwynwyd yn wreiddiol*, cyn belled â'i fod yn cael ei gyflawni o fewn yr amserlen. Fodd bynnag, penderfynodd yr Aelodau *dynnu'r addewid o arian yn ôl* o gynllun cyn-ysgol Llangollen, gan nad oedd unrhyw wybodaeth bellach wedi dod i law ar hyn, ac nid oeddent bellach yn hyderus o'i gyflwyno'n llwyddiannus.

Ynghyd â rhai tanwariant o brosiectau a oedd wedi'u cwblhau o dan y gyllideb, roedd hyn yn gadael swm terfynol o £38,100 i gael ei ail-ddyrannu. Yn seiliedig ar y meini prawf sgorio, penderfynodd yr Aelodau ddyrannu cyllid i dri o brosiectau eraill ar y rhestr, sef:

Llwybr cyswllt Aberchwiler	£23,200
Sied Nwyddau Gallt Melyd	£11,500
Unedau Busnes Cae Cymro	£ 3,400

Disgwylir y bydd yr holl arian a ddyrannwyd yn cael ei wario erbyn diwedd mis Mai 2017. Bydd darparu'r holl brosiectau byw yn cael ei fonitro drwy'r cyfnod hwn ac adroddir ar y cynnydd yn ôl i Hyrwyddwyr Tref. Erbyn hyn nid oes unrhyw gyllid pellach ar gael ar gyfer prosiectau TAP.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Bydd y penderfyniad hwn yn cefnogi'r defnydd effeithiol o arian y Cyngor i gefnogi mentrau cymunedol.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae'r costau fel a nodwyd yn yr adroddiad

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Dylai'r rhain gael eu cynnal ar sail prosiect unigol lle bo angen.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**
Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion gan y grŵp Hyrwyddwyr Tref o Aelodau, nid oes unrhyw ymgynghoriadau eraill wedi cael eu cynnal.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gall y cynigion yn yr adroddiad gael eu hariannu o fewn yr adnoddau presennol ac felly gellir eu cefnogi. Mae cynnydd y prosiectau angen parhau i gael eu monitro er mwyn sicrhau eu gweithrediad llwyddiannus ac i sicrhau bod gwerth am arian.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Na fydd y cyllid a ddyrannwyd i brosiectau cymunedol yn cael eu defnyddio'n llawn.

11. **Pŵer i wneud Penderfyniad**
Mae Aelodau wedi cytuno y dylai'r Cabinet benderfynu sut i ddyrannu'r gyfran hon o gyllid yn y gymuned.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	27 Medi 2016
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Cyng. Hugh Evans, Arweinydd Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus
Awdur yr Adroddiad:	Iwan Trefor Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Teitl:	Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau trafodaethau diweddar ar lefel rhanbarthol am gyfleoedd i dyfu economi Gogledd Cymru'n sylweddol, a chanlyniad hynny fu paratoi dogfen Weledigaeth Twf i'w defnyddio mewn trafodaethau gyda Llywodraethau'r DU a Chymru.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Cymeradwyo "Gweledigaeth Twf Economi Gogledd Cymru" fel sail ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraethau'r DU a Chymru dros Gais Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Gwahoddir y Cabinet i

- gymeradwyo "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" (atodwyd yn Atodiad 1) ac i gefnogi ei ddefnydd fel sail ar gyfer trafodaethau gan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gyda Llywodraethau'r DU a Chymru dros Gynnig Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth, a
- nodi y bydd unrhyw Gynnig Cynllun Twf sy'n codi yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor am benderfyniad cyn i Gyngor Sir Ddinbych wneud unrhyw ymrwymiad.

4. **Manylion yr adroddiad**

Wedi ei atodi at yr adroddiad hwn mae dogfen "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru". Mae'n nodi'n glir Strategaeth, Blaenoriaethau a Chynllun Gweithredu Prosiectau Strategol er mwyn cyflawni twf economaidd a chyflogaeth gynaliadwy ar draws y rhanbarth.

Mae'r ddogfen "Gweledigaeth Twf" yn darparu'r fframwaith strategol a'r cyd-destun i bartneriaid strategol, yn arbennig Llywodraethau'r DU a Chymru, er mwyn cyd arwain buddsoddiad i Ogledd Cymru a chasglu adnoddau at ei gilydd i gyllido prosiectau strategol.

Mae hefyd yn gosod uchelgais glir ar gyfer Gogledd Cymru, yn arbennig o safbwynt datblygiad seilwaith, sgiliau a chyflogaeth, a thwf busnes. Os caiff cyllid ei ddiogelu

er mwyn cyflawni cynlluniau gweithredu'r prosiectau, bydd y rhanbarth yn profi twf economaidd cynaliadwy a bydd gwerth economi Gogledd Cymru yn tyfu o £12.8 biliwn yn 2015 i £20 biliwn erbyn 2035. Bydd cyfradd twf o'r fath yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd.

Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn thema sy'n tansello'r ddogfen "Gweledigaeth Twf" yn gyson, gydag ymrwymiad cryf gan y sector breifat ac agwedd "Tîm Gogledd Cymru". Mae hyn yn adeiladu ar y cynghreiriau cryf a'r cyd gynllunio sydd eisoes wedi digwydd yn y rhanbarth drwy waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae ymgynghori dwys wedi ei gynnal drwy gydol y broses o baratoi'r "Weledigaeth Twf". Mae sefydliadau fel Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Grŵp Llandrillo-Menai, Coleg Cambria, LEP Swydd Gaer a Warrington, Byrddau Ardaloedd Menter, Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac eraill wedi bod yn ymwneud ac wedi ymgysylltu gyda'r gwaith dros y misoedd diwethaf.

Mae cyfraniad sylweddol wedi dod o'r sector breifat drwy Gyngor Busnes Gogledd Cymru. Maent wedi bod yn rhagweithiol, gan chwarae rôl sylweddol wrth greu a datblygu'r Weledigaeth Twf a'r Strategaeth. Yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf, 2016 cymeradwyodd y Cyngor Busnes y "Weledigaeth Twf" a chymeradwyodd ei Gynllun Gweithredu.

Mae rôl yr Awdurdodau Lleol hefyd wedi bod yn hanfodol bwysig. Cyfarfu Arweinyddion a Phrif Weithredwyr 6 Awdurdod Lleol ar 15 Gorffennaf, 2016 a chefnogwyd cyflwyno "Gweledigaeth Twf" i Lywodraethau'r DU a Chymru.

Mae cyswllt positif wedi ei wneud gydag Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith Llywodraeth Cymru. Mae wedi rhoi cefnogaeth anffurfiol i'r cysyniad o "Weledigaeth Twf" ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n integredig â Gogledd Orllewin Lloegr ac yn gysylltiedig ag economi'r DU yn ehangach.

Mae trafodaethau cadarnhaol hefyd wedi eu cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Cymru.

Cafodd y ddogfen ei chymeradwyo'n swyddogol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ar 1 Awst 2016.

Mae sylfaen eang o gefnogaeth ar draws yr amrywiol sectorau i ranbarth y "Weledigaeth Twf" felly. O ganlyniad i'r sylfaen hon a chryfder y gefnogaeth nid oes amheuaeth y bydd cyfunoliaeth a momentwm wrth gyflawni'r Strategaeth.

Rydym nawr yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol chwe Chabinet yr Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth ar gyfer y weledigaeth a'r strategaeth.

Y bwriad wedyn yw cynnal trafodaethau gyda Changhellor y Trysorlys, Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, yn arbennig o safbwynt rhaglen fuddsoddi bosib er mwyn cyflawni cynllun gweithredu'r prosiectau. Bwriedir cynnal trafodaethau hefyd am "Gynllun Twf" posib ar gyfer Gogledd Cymru. Ystyrir y Cynllun Twf fel un o'r

cerbydau i ddiogelu buddsoddiad i gyflawni amcanion a dyheadau'r "Weledigaeth Twf" rhwng nawr a 2035.


- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae datblygu'r Economi Lleol yn flaenoriaeth o fewn Cynllun Corfforaethol cyfredol y Cyngor. Tra gall llawer o'r gwaith sy'n ymwneud â hyn gael ei wneud ar lefel lleol, nid oes amheuaeth fod cryfhau'r economi rhanbarthol hefyd yn hanfodol. Mae'r gwaith i sefydlu Gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Twf Economaidd i Ogledd Cymru yn gydran graidd a disgwylir y byddai datblygu Cais Cynllun Twf yn un ffordd o gyflawni'r weledigaeth twf rhanbarthol.
- 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyfrannu £30,000 i'r prosiectau sy'n cael eu gwneud gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Caiff cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Busnes Gogledd Cymru eu hychwanegu at y cyllid hwn. Fel bydd trafodaethau ar gyfer Cais Cynllun Twf posib yn datblygu, gallai'r angen am gyllid ychwanegol ddod i'r amlwg ond maent yn anhysbys ar hyn o bryd. Bydd amodau unrhyw Gais Cynllun Twf yn ei hun yn pennu unrhyw gyfraniadau posib y gellid gofyn i'r Cyngor ei wneud. Bydd y rhain yn ddibynnol ar drafodaeth bellach a phenderfyniad ffurfiol drwy strwythurau llywodraethol addas y Cyngor cyn gwneir unrhyw ymrwymadau pendant.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fod wedi ei atodi i'r adroddiad**
Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb hyd yn hyn. Bydd hyn yn cael ei gynnal gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y rhanbarth gyfan fel bydd amodau unrhyw Gais Cynllun Twf ffurfiol yn cael eu datblygu.
- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
Fel a nodwyd yn yr adroddiad, mae ymgynghori dwys wedi ei wneud ar lefel ranbarthol. Yn lleol, mae Cynghorwyr wedi cael eu briffio mewn Cyfarfodydd Briffio o fewn y Cyngor. Mae aelodau Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd Sir Ddinbych wedi derbyn y newyddion diweddaraf wrth i drafodaethau rhanbarthol gael eu cynnal.
- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid yw cymeradwyo'r Weledigaeth Twf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ymrwymo unrhyw gyllid ychwanegol. Mae'n bosib y bydd datblygiad pellach y fframwaith strategol yn gofyn am gyllid neu adnoddau ychwanegol gan y cyngor ond byddai penderfyniadau yn ddibynnol ar drefniadau penderfyniadau llywodraeth fewnol a chymeradwyo cyn ymrwymo.
- 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**
Nid yw'r ddogfen Gweledigaeth Twf yn cyflwyno unrhyw risgiau penodol yn ei hun. Fel bydd yn datblygu i gynllun gweithredu, gan gynnwys trafodaethau ar gyfer Cais Cynllun Twf, bydd risgiau ariannol, gweithredol, a risgiau i enw da yn amlygu eu hunain. Bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith rhanbarthol i gyflawni yn erbyn y Ddogfen Weledigaeth ac yn cael eu hadrodd i'r Cyngor maes o law pan fydd angen unrhyw gymeradwyaeth ffurfiol gan Gyngor Sir Ddinbych.

Fel gydag unrhyw weithgarwch datblygu economaidd, mae risg na fydd y farchnad yn ymateb ac na fydd twf economaidd yn datblygu. Fel lliniaru, mae'r Weledigaeth Twf wedi ei selio ar drafodaethau manwl ac asesiad proffesiynol o economi Gogledd Cymru, a'i chryfderau, ei gwendidau a'r potensial i dyfu.

11. Pŵer i wneud Penderfyniad
a.2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru

Tudalen 33



“Rhanbarth hyderus,
cydlynol sydd â thwf
economaidd
cynaliadwy, sy'n elwa
i'r eithaf o lwyddiant
sectorau economaidd
gwerth uchel a'i
gysylltiad ag
economïau Pwerdy'r
Gogledd ac Iwerddon.”

GWELEDIGAETH AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Gweledigaeth sengl, gyd-gysylltiedig yw hon ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth i Ogledd Cymru. Fe'i cyflawnir drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, gyda'r sector preifat yn chwarae rhan bwysig ac ymagwedd "*Tîm Gogledd Cymru*", yn adeiladu perthnasau economaidd agos gydag ardaloedd cyfagos.

Bydd yn creu' amodau priodol i gefnogi darparu blaenoriaethau Isadeiledd Cenedlaethol Llywodraeth y DU yng ngogledd Cymru hefyd, yn benodol Wylfa Newydd - sy'n un o'r buddsoddiadau sector preifat mwyaf yn y DU - a'r prosiect moderneiddio'r rheilffyrdd o Crewe i Gaergybi, a fydd yn cynnwys trydaneiddio.


Cyflwynir ein huchelgais ar gyfer gogledd Cymru yn 2035 yn adran 2 y papur hwn, tra bod adrannau 3 a 4 yn nodi ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu Prosiectau i ddarparu twf a galluogi i'r sector preifat fuddsoddi a rhoi hwb i gynhyrchiant.

Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y papur hwn yw adnabod ein gweledigaeth ar gyfer twf i ogledd Cymru, a threfnu ein Strategaeth a'n pecyn o brosiectau i wireddu'r weledigaeth honno.

Ymchwilir i amrywiol raglenni ariannu er mwyn cefnogi gweithrediad y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Prosiectau, yn benodol cynnig Cynllun Twf gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Tudalen 10

Y Ganolfan Ymchwil i Ynni Solar,
Prifysgol Glyndŵr



Mae nifer o resymau dros fynd ar ôl gweledigaeth o'r fath:

- Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gogledd Cymru;
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth;
- Mynd i'r afael â diweithdra a seگردod ledled y rhanbarth;
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad sector preifat yn y rhanbarth i roi hwb i gynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth gogledd Cymru.

GOGLEDD CYMRU YN 2035.....

Gwireddir y weledigaeth drwy glystyrau economaidd gwerth uchel ledled gogledd Cymru.

Bydd gan y **clwstwr ynni** arbenigedd mewn cynhyrchu ynni, technolegau a phrosesau carbon isel, gyda busnesau wedi'u paratoi'n dda i elwa ar gyfleoedd o ganlyniad i fuddsoddiad yn Wylfa Newydd, Adweithyddion Modiwlwr Bychain Trawsfynydd a phrosiectau ynni llanw ac ynni gwynt oddi ar y tir. Bydd gan fusnesau o fewn y clwstwr gysylltiadau cryf gyda chanolfannau ymchwil ynni blaenllaw, yn enwedig yn ardal Pweryd'r Gogledd, er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol, arloesedd, ymchwil a Datblygu o ansawdd uchel, a masnacheiddio technoleg.


Bydd y **clwstwr digidol** yn bwysig, gwneir pob ymdrech i elwa ar gyfleoedd synergedd gyda gweithgarwch datblygiadau clwstwr y sector ynni mewn rhanbarthau eraill cyfagos, yn enwedig cyfleoedd cadwyni cyflenwi. Bydd gogledd Cymru, ynghyd â'r ardal draws-ffiniol a gogledd-orllewin Lloegr, yn cael eu gosod fel un o leoliadau mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer buddsoddi mewn cynhyrchu ynni a chadwyni cyflenwi yn ymwneud ag ynni, gydag arbenigedd mewn busnes ac academia i achub ar gyfleoedd am y galw byd-eang ar gyfer ynni carbon isel neu dim carbon.

Bydd y **clwstwr gweithgynhyrchu uwch** yn y rhanbarth yn hynod gystadleuol ar y llwyfan byd-eang. Bydd y rhanbarth yn ferw o weithgareddau yn y clwstwr hwn, gan adeiladu ar rwydwaith cryf o



gwmnïau angori gyda phroffil rhyngwladol a mantais gystadleuol o fewn awyrfod, deunyddiau a phrosesau, peirianeg forol ac amgylcheddol, cerbydau modur, electroneg a bwyd.

Cyflenwir y cwmnïau angori yn y clwstwr hwn gan y mentrau bach a chanolig o fewn y rhanbarth sydd ag enw da am ansawdd uchel. Bydd y clwstwr yn elwa o bortffolio o safleoedd datblygu â gwasanaethau da ynghyd ag argaeledd asedau a chyfleusterau gwybodaeth gymhwysol, yn enwedig o fewn addysg uwch. Gyrrir twf yn y clwstwr hwn yn benodol gan y Parthau Menter (megis Parth Menter Glannau Dyfrdwy), ynghyd â buddsoddiad newydd ym Mhorth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy; Parc Diwydiannol Wrecsam; Parc Busnes Llanellwy; Parc Bryn Cegin, Bangor a Pharc Cybi, Caergybi.



Bydd y **clwstwr digidol** yn rhan annatod o'r rhanbarth a bydd twf cyflym nifer o fusnesau digidol yn cadarnhau safle gogledd Cymru fel hwb o ragoriaeth technoleg yn y DU.

Bydd y sector digidol amrywiol, yn cynnwys cyfrifiannu perfformiad uchel, dadansoddi data, y cyfryngau, cyfrifiant gwybyddol ac ati, yn allweddol i'r rhanbarth, gan greu sectorau arloesol newydd a chreu ffyrdd newydd o ymgymryd â busnes. Y clwstwr digidol fydd peirianwaith twf yng

ngogledd Cymru, gan adeiladu ar y manteision cystadleuol yn nhermau academia, ansawdd bywyd a phrydferthwch naturiol eithriadol, ac isadeiledd o ansawdd.

Bydd y diwydiannau creadigol, datblygu meddalwedd, technoleg iechyd a gwyddor ariannol oll yn rhan o glwstwr o'r fath, gan fagu eu momentwm eu hunain ar gyfer twf. Bydd ein cryfder mewn technoleg ddigidol yn cael ei yrru gan ymchwil gymwys gref o Brifysgolion a Cholegau Addysg Bellach y rhanbarth gyda pheirianwyr trydanol a meddalwedd yn gyrru'r arbenigedd mewn caledwedd a chyfathrebu diwifr. Bydd rhai safleoedd strategol yn rhoi ffocws ar gyfer gweithgareddau yn y sector digidol, yn benodol Parc Gwyddoniaeth Menai, Parc Technoleg Wrecsam a Pharc Busnes Llanelwy.

Bydd gan y rhanbarth grynodiad uchel o gwmnïau digidol - clwstwr technoleg sylweddol, gan greu 'cyffro' gwirioneddol a fydd yn llwyddo i sbrydoli pobl ifanc a chreu delwedd o ranbarth modern, eangfrydig ac bydd â chysylltiadau da.

Mae Gogledd Cymru yn economaidd gysylltiedig â **Phwerdy'r Gogledd**. Ni ydd ffiniau gweinyddol yn rhwystr, gydag economi gogledd Cymru wedi'i gysylltu'n annatod a'i alinio'n agos â gogledd-orllewin Cymru.

Bydd cydweithio ar draws ffiniau yn digwydd hefyd wrth gyflwyno prosiectau strategol, megis cludiant, a datblygu clystyrau gwerth uchel allweddol a fydd yn rhoi hwb i berfformiad a chynhyrchiant economaidd.

Mae rhai o'r prosiectau trawsffurfiol allweddol yn y rhanbarth, megis Wylfa Newydd ac Adweithyddion Modiwlwr Bychain Trawsfynydd, yn cynnig synergedd posib anferthol gyda'r clwstwr ynni ym Mhwerdy'r Gogledd, a bydd yn elwa'n uniongyrchol o'r arbenigedd gweithgynhyrchu uwch sy'n bodoli o fewn sefydliadau megis Canolfan Ymchwil

Gweithgynhyrchu Uwch Niwclear sydd yn Sheffield a Dalton Institute Prifysgol Manceinion.

Yn ogystal, bydd y rhanbarth yn elwa o ddatblygu cysylltiadau masnachu, masnachol a busnes gydag Iwerddon. Gwneir y mwyaf o'r buddion economaidd o fod wedi'n gosod rhwng prif ganolfannau economaidd megis Manceinion a Dilyn - gan gynyddu'n hapêl ymhellach fel prif gyrchfan busnes.

Bydd gwella'r isadeiledd cludiant ac economaidd rhanbarthol yn cefnogi twf tai cynaliadwy ac yn gwella mynediad i'r rhanbarth i hyrwyddo'r hyn sydd ganddo i'w gynnig i ymwelwyr. Bydd Gwireddu'r Weledigaeth wedi'i integreiddio mewn cynlluniau ar gyfer cynllunio a datblygu cymunedau cynaliadwy sy'n parchu nodweddion diwylliannol ac ieithyddol unigryw'r rhanbarth.



Bydd gwireddu'r uchelgais hon yn sicrhau y bydd gan ogledd Cymru gynnig rhanbarthol cryf i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig hwn yn grynodiad o fusnesau arloesol mewn clystyrau economaidd gwerth uchel wedi'u sefydlu yn y rhanbarth, gan elwa i'r eithaf ar y sail sgiliau lefel uchel, isadeiledd o ansawdd a chysylltiadau ardderchog gyda Phwerdy'r Gogledd. Bydd crynodiad o'r fath yn sefydlu gogledd Cymru fel "Canolfan Ragoriaeth" er mwyn lleoli busnesau mewn clystyrau gwerth uchel ac o ganlyniad, gan roi hwb i lefelau cynhyrchedd y DU a chydbwysu'r economi.

STRATEGAETH I GYFLAWNI'R WELEDIGAETH

Wrth galon y weledigaeth mae'r ysfia i wella **cynhyrchedd, yr awydd i gystadlu a thwf** ledled gogledd Cymru.

Mae wedi'i ddatblygu a'i gytuno arno gan bartneriaeth eang o bobl, sefydliadau a busnesau sy'n rhannu balchder mewn ardal sydd ag asedau, heriau a chyfleoedd unigryw, ynghyd ag uchelgais ar gyfer yr ardal honno.

Bydd y ffocws ar greu'r amodau priodol er mwyn i gystyrau economaidd gwerth uchel megis ynni, gweithgynhyrchu uwch'r sector digidol ffynnu ac er mwyn rhoi sbectol i'r cyfraniad i berfformiad yr economi.


Cyflawnir hyn drwy adeiladu ar gryfderau sylfaenol busnesau presennol a dod dros unrhyw rwystrau a heriau drwy ddarparu pecyn o brosiectau strategol sydd eu hangen er mwyn cael newid cadarnhaol i drawsffurfio'r economi.

Mae cynyddu cynhyrchedd yn nod allweddol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus, a darparu economi mwy llwyddiannus a chytbwys, bydd angen buddsoddiad hirdymor er mwyn mynd i'r afael â heriau hirdymor, yn benodol ym meysydd trafniadaeth, sgiliau a chyflogaeth, cefnogi busnes ac anghenion

tai.

Bydd y Strategaeth y cyflawni'r weledigaeth o gynyddu cynhyrchedd, twf a swyddi drwy ganolbwyntio ar yr isod:

Gwella'r isadeiledd ledled y rhanbarth, yn enwedig trafniadaeth a digidol, er mwyn hwyluso a galluogi buddsoddiad economaidd a gwireddu potensial economaidd gogledd Cymru. Rhaid diweddarau technoleg ddigidol yn sylweddol er mwyn bod yn alluogwr allweddol ar gyfer cynhyrchedd ac yn rhywbeth sy'n gyrru arloesedd a masnachu rhyngwladol. Hefyd, mae angen canolbwyntio ar wella mynediad i safleoedd cyflogaeth, a mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd traffig ar rai llwybrau ffyrdd penodol, yn enwedig yn ardal y ffin. Rhaid buddsoddi yn rhwydwaith rheilffyrdd gogledd Cymru hefyd - mae trydaneiddio'r rheilffordd yn flaenoriaeth ynghyd â gwella amllder, cyflymder ac ansawdd y gwasanaethau rheilffordd. Hefyd, rhaid i'r rhanbarth sicrhau bod portffolio o safleoedd datblygu yn bodoli sy'n ymateb i'r farchnad, wedi'u gwasanaethu'n dda, sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n bodloni anghenion sectorau a chlystyrau economaidd heddiw ac yfory, yn enwedig ar hyd coridor yr A55. Mae hyn yn hanfodol os ydym am fod yn lleoliad y mae busnesau yn



ei ffafrio a denu buddsoddiad. Bydd gofyn i'r cynnig tai ledled gogledd Cymru - sy'n gydran allweddol o alluogi twf - ymateb i newidiadau demograffig a bodloni anghenion tai ledled y rhanbarth. Bydd angen annog cynlluniau i ddarparu tai o safon ar draws amrediad o ddaliadaethau, sy'n addas ar gyfer amrediad o lefelau incwm a dyheadau yn agos at ganolfannau cyflogaeth mawr.

Gwella ac uwchraddio sgiliau'r rhanbarth a hyrwyddo twf cyflogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella'r cyflenwad o sgiliau uwch yn y clystyrau economaidd gwerth uchel a mynd i'r afael â diweithdra. Rhaid cefnogi cyflogwyr yn y rhanbarth i yrru darpariaeth sgiliau sy'n ymateb i'w hanghenion, gan gadw hyblygrwydd i ymateb i ofynion sy'n newid. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yn y rhanbarth yn meddu ar y sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen a sicrhau bod yr ardal yn darparu cynnig cyflogaeth deniadol i ddenu a chadw gweithwyr, yn enwedig y rheini sydd â sgiliau lefel uchel. Mae'r Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy, y Ganolfan Technoleg Awyrfod ym Mrychdyn a'r Ganolfan Sgiliau newydd ar gyfer Llangenni a'r Amgylchedd yn Llangefni yn enghreifftiau o brosiectau allweddol sydd â'r potensial i wella'r gwaith a mae angen eu darparu er mwyn cefnogi'r agenda sgiliau. Bydd rhaid i'r system addysg yn y rhanbarth fod yn fwy seiliedig ar y galw, gan adlewyrchu blaenoriaethau cyflogwyr a sectorau twf yn y cwricwlwm addysg. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y rheini sy'n chwilio am waith yn meddu ar y sgiliau er mwyn cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, ac mae angen cefnogi'r rheini sydd mewn gwaith i ddatblygu eu potensial. Ymdrinnir â diweithdra drwy ddarparu rhaglenni integredig a



chydlynol a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn - gan roi'r hyder a'r gefnogaeth iddynt allu mynd i mewn i'r farchnad lafur.

Hyrwyddo a chefnogi twf busnesau ac arloesedd, yn enwedig mewn sectorau allweddol, a chryfhau cadwyni cyflenwi o fewn y rhanbarth. Mae angen i ni greu amgylchedd cefnogol a chystadleuol iawn i'n busnesau, fel eu bod yn parhau'n wydn ac wedi'u sefydlu'n lleol. Mae'n hanfodol bod y gefnogaeth hon yn cael ei chydlynu'n effeithiol, yn enwedig drwy ymagwedd Tîm Gogledd Cymru. Yn ogystal, bydd cyfle i fusnesau yn y rhanbarth i elwa i'r eithaf ar gynlluniau buddsoddiad sector preifat sylweddol, megis Wylfa Newydd, Parth Menter Glannau Dyfrdwy, Orthios Caergybi, ac mae'n hanfodol y rhoddir y gefnogaeth a'r adnoddau cywir iddynt allu cael mynediad i'r cadwyni cyflenwi perthnasol a chadw gwariant yn y rhanbarth. Rhaid i ni hefyd roi hwb i dwf mewn mentrau ar draws allforio, arloesedd a busnesau newydd, yn enwedig drwy ymyraethau sydd â chyswllt ac ymrwymiad llawn y sector preifat. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y gwasanaethau a'r cyfleusterau priodol ar gael yn y rhanbarth i gefnogi'r sector busnes i gael mynediad i adnoddau Ymchwil a Datblygu, yn benodol o addysg uwch ac addysg bellach. Mae angen mentrau marchnata rhagweithiol hefyd er mwyn denu buddsoddiad newydd, gan adeiladu ar gryfderau lleoliadau amrywiol ledled y rhanbarth, a sefydlu Gogledd Cymru fel cyrchfan allweddol. Yn syml, rhaid i ni gael enw gwell fel lleoliad ardderchog o safon uchel ar gyfer buddsoddiad newydd, yn benodol yn y clystyrau economaidd gwerth uchel.

Rhennir y buddion er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r gwahanol isranbarthau yng ngogledd Cymru.

Rhoddir ystyriaeth yn awr i ffurf o fodel llywodraethu a fydd yn gynhwysol a gyda'r modd o weithredu'n brydlon a chadarn, ynghyd ac ymgymryd â gwaith cyd-gynllunio gyda Phartneriaethau Rhanbarthol fel Sir Gaer a Warrington.

PROSIECTAU STRATEGOL I GYFLAWNI'R STRATEGAETH

Mae portffolio o brosiectau strategol wedi'u hadnabod er mwyn cefnogi'r gwaith i wireddu'r strategaeth. Mae'r prosiectau hyn - sydd oll wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau gan bartneriaeth yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, y sector preifat a Cholegau Addysg Uwch ac Addysg Bellach - wedi'u cynnwys isod dan y penawdau perthnasol.

Dylid nodi bod blaenoriaethau allweddol y chwe Awdurdod Lleol ar gyfer Isadeiledd, Sgiliau a Thwf Busnes wedi'u hymgorffori o fewn y portffolio hwn.



Tudalen 40

Cynllun Isadeiledd i alluogi twf:

Ffyrdd

- Prosiect Gwella Llwybr yr A55 / A494 (£210m), gwella'r prif fynediad o ogledd Cymru i Bwerdy'r Gogledd*:
 - Gwelliant Aston Hill
 - Ffordd amgen Pont Sir y Fflint
- Gwelliannau Capasiti a Gwytnwch yr A55 (£35m):
 - Materion tagfeydd traffig mewn mannau cyfyng allweddol e.e. Helygain ac Abergele
 - Gwelliannau gwytnwch
- Prosiect Gwella Llwybr yr A483 / A5 (£300m), gwella'r prif fynediad o ogledd Cymru i Ganolbarth a De Lloegr*:
 - Cyffordd yr A483 / A55 ym Mharc Busnes Caer
 - Cyffyrdd Canol Tref Wrecsam
 - Cyffyrdd yr A483 / A5 yn Halton drwy Groesoswallt
- Yr A55 ar draws y Fenai (£135m)
- Yr A487 Ffordd Osgoi Caernarfon Bontnewydd (£85m)
- Mynediad Porthladd Caergybi (£10-15m)

	<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad lleol i gyfleoedd cyflogaeth
Rheilffordd	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu prosiectws manwl (Growth Track 36) sy'n amlinellu ein huchelgais ar gyfer gwelliannau gwasanaethau rheilffordd a chysylltedd gyda'r HS2 yn hwb Crewe - gan gynnwys cynigion i wella: <ul style="list-style-type: none"> • Gwelliannau amllder a chyflymder y gwasanaeth (£20m - £25m)* • Gwelliannau capasiti y rhwydwaith (£35m)* • Gwelliannau i'r cerbydau • Trydaneiddio'r rhwydwaith (£750m)* • Gwell gorsafoedd yng Nglannau Dyfrdwy
Trafnidiaeth Integredig	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu rhwydwaith trafndiaeth teithwyr rhanbarthol sy'n integreiddio'n llawn yr holl foddau trafndiaeth.
Safleoedd ac Eiddo Strategol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwireddu rhaglen wedi'i rheoli sy'n darparu safleoedd cyflogaeth strategol gydag isadeiledd cysylltiedig yn cynnwys mynediad: <ul style="list-style-type: none"> • Porth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy (£10m)* • Warren Hall, Brychdyn (£20m)* • Ehangu Parc Technoleg Wrecsam (£10m)* • Ymestyn Stad Ddiwydiannol Wrecsam (£15m)* • Ailddatblygu Ardal Fusnes Wrecsam (£8m)* • Ehangu Parc Busnes Llanellwyr (£10m) • De ddwyrain Abergele (£7m) • Parc Bryn Cegin, Bangor (£3m) • Ehangu Parc Cefni, Llangefni (£5m) • Parc Cybi, Caergybi (£2m) • Ailddatblygu Porthladd Caergybi (£5m) • Safle Ferodo, Caernarfon (£5m) • Canolfan Cynhyrchu Ynni Trawsfynydd (£5m) • Canolfan Awyrofod Eryri, Llanbedr (£6m) • Parc Gwyddoniaeth Menai (£21m)

	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu Bwrdd Cyflwyno rhanbarthol er mwyn datblygu safleoedd ac eiddo ac adnabod cyfleoedd ariannu arloesol.
Digidol	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo a chyflwyno prosiectau sy'n cynyddu band eang cyflym a rhwydwaith ffonau symudol sy'n galluogi ein busnesau i gael mynediad i farchnadoedd newydd. Cyflymu datblygiad rhaglen isadeiledd cysylltedd y rhanbarth. Cefnogi buddsoddiad parhaus yn y rhwydwaith a'r isadeiledd digidol, yn enwedig cysylltedd symudol, a hyrwyddo gweithgareddau i wneud y mwyaf o'r ffaith fod band eang cyflym ar gael. Monitro defnydd a hyrwyddo'r capasiti a ddarperir.
Tai	<ul style="list-style-type: none"> Mynd i'r afael â rhwystrau allweddol i ddarparu tai, yn enwedig yn Wrecsam a Sir y Fflint, a sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer datblygiad preswyl i fodloni'r galw a'r angen a amcangyfrifir, yn enwedig ailddefnyddio safleoedd tir llwyd. Bydd cefnogaeth ar gael i gynorthwyo gyda chostau sy'n gysylltiedig ag adfer safle, darparu isadeiledd galluogi a'r diffyg arian a achoswyd gan fynediad cyfyngedig i arian gan fanciau a sefydliadau.

(* hefyd wedi eu cynnwys yng nghais twf Sir Gaer a Warrington)



Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth i alluogi twf:

	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno strategaeth sy'n cynyddu'r defnydd o bynciau STEM i gefnogi'r sectorau ynni, gweithgynhyrchu uwch a digidol yng ngogledd Cymru. Adnabod galw am sgiliau a gweithio gyda darparwyr o fewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach a'r trydydd sector i gefnogi datblygu ac uwch-sgilio'r gweithlu rhanbarthol. Datblygu mentrau a phrosiectau i hyrwyddo darpariaeth sgiliau ar draws darparwyr addysg a hyfforddiant er mwyn cefnogi blaenoriaethau economaidd rhanbarthol.
--	--

- Cyflwyno prosiectau a rhaglenni penodol er mwyn cefnogi'r sectorau allweddol:
 - Canolfan Ragoriaeth ABWR Grŵp Llandrillo Menai / Horizon a Champws Niwclear yn Llangefni
 - Canolfan Ragoriaeth mewn Ynni Adnewyddadwy ym Mhrifysgol Bangor ac ym Mharc Gwyddoniaeth Menai
 - Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy a Labordy Peirianeg a Chynhyrchedd Busnes ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam
 - Canolfan technoleg awyrofod ym Mrychdyn
 - Adnodd gwyddonol a thechnoleg newydd ym Mhrifysgol Bangor
- Ariannu gwasanaeth cyngor gyrfaoel ar draws ffiniau i gefnogi'r ddarpariaeth sgiliau.



Cefnogi Cynllun Twf Busnes:

Tudalen 43

- Datblygu prosiectau sy'n benodol i'r sector sy'n cefnogi twf parhaus y sector Gweithgynhyrchu Uwch, yn enwedig yn y sectorau Awyrofod, Cerbydau Modur, Pecynnu, Niwclear, Deunyddiau Uwch, Bwyd a Diod a Gwyddorau Meddygol.
- Cyflwyno'r prosiectau cynhyrchu ynni ac ynni adnewyddadwy carbon is a gynlluniwyd, ynghyd â hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i ddatblygu prosiectau yn y rhanbarth ymhellach e.e. Parth Arddangos Morol Morlais, Canolfan Ynni Adnewyddadwy Catapult.
- Hyrwyddo datblygiad parhaus y sectorau Cyllid, Busnes, gwasanaeth Creadigol a Digidol dwys a gwerth / gwybodaeth uchel sy'n tyfu yng ngogledd Cymru e.e. Gwasanaethau Ariannol Wrecsam.
- Rhoi hwb i dwf yn ein ffrwd Menter ar draws ffiniau ym maes Allforio / Arloesedd / Cynhyrchedd a Sefydlu Busnesau, drwy becyn o arian ac adnoddau ar gyfer Ymchwil a Datblygu Busnes ac Ymchwil Addysg Uwch ac Addysg Bellach / Recriwtio Graddedigion / Rheoli Allforion / Fflyd Deori 'Pop-up' rhanbarthol.
- Trosoli a phwlio adnoddau presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd drwy sefydlu Hwb Buddsoddi a Chyflymu Twf Gogledd Cymru (Hwb Twf Gogledd Cymru), gan gyd-leoli adnoddau allweddol Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru mewn un lleoliad. Yr holl drosolion a chefnogaeth allweddol

mewn un lle - 'tîm Gogledd Cymru'.

- Cefnogi busnesau yn y rhanbarth i gael mynediad i gyfleoedd sy'n deillio o gynlluniau buddsoddi sector preifat a chyhoeddus mawr, yn enwedig drwy'r gadwyn gyflenwi. Mae rhai o'r prosiectau mawr hyn yn cynnwys Wylfa Newydd, Parc Gwyddoniaeth Menai, Parthau Menter, Orthios Caergybi a gwelliannau mawr i'r rhwydwaith ffyrdd.
- Datblygu mentrau newydd i gefnogi cynaladwyedd a gwytnwch y sector adeiladu yng ngogledd Cymru.
- Darparu cefnogaeth ac ysgogiad i gwmnïau angori mawr sydd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru i dyfu a datblygu ymhellach, megis Airbus / JCB / Siemens / Redrow / Moneypenny / Moneysupermarket / Toyota / Kingspan.
- Sefydlu Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth - cysylltu anghenion byw busnesau gyda chyfleusterau ymchwil ac arbenigedd ledled gogledd Cymru, Merswy Dyfrdwy a rhanbarth ehangach Pwerdy'r Gogledd.
- Datblygu prosiectau i gyflymu masnacheiddio technolegau newydd a chynnyrch sy'n arwain y farchnad, gan roi hwb i dwf arloesedd a chynhyrchedd.
- Buddsoddiad yn y 'Coridor Arloesedd' ledled gogledd Cymru i ehangu a gwella cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu, gan helpu i sefydlu Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo-Menai yn benodol fel canolfannau ar gyfer arloesedd, ymchwil a datblygu.
- Elwa i'r eithaf ar enw da'r rhanbarth fel lle ag ansawdd bywyd gwyh, fel cyrchfan twristiaeth antur sy'n adnabyddus ledled y byd ac fel y lleoliad canolog sy'n cysylltu'r Farchnad Wyddelig a'n rhanbarth ehangach o Bwerdy'r Gogledd, drwy sefydlu Cronfa Farchnata Ranbarthol i gefnogi Mewnfuddsoddi a hyrwyddo Twristiaeth (rheolaeth Sector Cyhoeddus/Preifat).

EFFAITH AR BERFFORMIAD ECONOMAIDD Y RHANBARTH

Y gyfradd twf sydd wedi'i ragweld ar gyfer yr economi ranbarthol - yn seiliedig ar dueddiadau presennol - yw 1.9% rhwng 2016 a 2035. Er hynny, fe allwn gyflawni cyfradd twf uwch o weithredu'r Weledigaeth Twf a'r Strategaeth Dwf, a chodi gwerth economi Gogledd Cymru o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035 - yn cynrychioli cyfradd twf o 2.8%

Byddai gwerth yr economi yn tyfu 56% mewn llai nag 20 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd lefelau twf o'r fath yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd ychwanegol. Mae hyn yn seiliedig ar ystyriaethau sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd a oedd yn modelu gwahanol senarios o symudiadau mewn GVA yn y dyfodol yng ngogledd Cymru.

Bydd gwelliannau o'r fath mewn twf GVA a chyflogaeth yn lleihau'r bwch llbwn gyda gweddill y DU yn sylweddol

Y dudalen 45

Mae'r ddarpariaeth a ragwelir ar gyfer dyraniadau tai ar hyn o bryd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi'u mabwysiadu neu sydd ar y gweill ledled y rhanbarth (sy'n gorffen ar wahanol adegau) yn amrywio o 37,500 o gartrefi i 44,100, sy'n 2,500-3,000 o gartrefi newydd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae 13,100 o gartrefi wedi'u cwblhau rhwng mis Ebrill 2007 a mis Ebrill 2015 - y mwyafrif yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hyn yn dangos fod yn rhaid i'r rhanbarth fod yn fwy uchelgeisiol yng nghynllunio twf tai cynaliadwy.

O ystyried y twf a ragwelir yn y rhanbarth, rhaid i fesurau fod yn eu lle i sicrhau bod cyfyngiadau a rhwystrau'n cael eu gwaredu er mwyn rhyddhau safleoedd dynodedig ar gyfer datblygiadau tai - yn enwedig mewn ardaloedd o dwf cyflogaeth uchel. (Mae'r weithred hon wedi'i chynnwys yn y Cynllun Isadeiledd yn y Strategaeth). Yn ogystal, bydd angen dyraniadau pellach o dir ar gyfer tai wrth i'r Cynlluniau Datblygu Lleol gael eu hadnewyddu o 2021 ymlaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni sicrhau bod y broses cynllunio defnydd tir yn cael ei hintegreiddio a'i halinio'n agos gyda'n strategaeth twf economaidd.

£7.2bn

gwerth ychwanegol i'r economi ranbarthol erbyn 2035

CYFRIFOLDEBAU NEWYDD I'R RHANBARTH ER MWYN CYFLAWNI

Mae'r rhanbarth wedi'i baratoi ac yn barod i dderbyn cyfrifoldebau a phwerau newydd ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio arno. Bydd hyn yn cefnogi cyflawniad y Weledigaeth a'r Strategaeth Twf, ynghyd â hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio a gwella cydlynu gwasanaethau i fusnesau a phobl drwy ymagwedd "Tîm Gogledd Cymru".

Er enghraifft, mae potensial i edrych i mewn i'r isod gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:

- Integreiddio rhaglenni cyflogaeth a sgiliau ar y lefel ranbarthol - yn benodol rhaglenni DWP a mentrau sgiliau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u targedu at y grwpiau "anodd eu cyrraedd" a'r rheini sy'n economaidd anweithredol. Drwy ymagwedd o'r fath, daw cyfle i fynd i'r afael â diweithdra mewn ffordd lawer mwy ystyrlon ac effeithiol, gan deilwra'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd newydd i fodloni anghenion gogledd Cymru.

Tudalen 46

- Cronfa Fuddsoddi wedi'i Gwarantu gan Asedau - Gellid cyflawni hyn pe byddai asedau Awdurdodau Lleol / Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus yn cael eu pwlio. Yr hyn sy'n bwysig, er mwyn i'r ymagwedd hon fod yn gwbl effeithiol, yw y byddai rhai o'r pwerau sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ers dyddiau'r WDA / Awdurdod Tir yn rhoi cyfrifoldebau a phwerau allweddol i'r endid newydd.

- Cynllunio defnydd tir strategol - yn benodol er mwyn cyflawni gwell aliniad rhwng polisïau cynllunio a blaenoriaethau datblygu'r economi. Gellid ymgymryd â'r broses o adnabod

cyflenwad tir sydd ei angen ar gyfer twf tai a thwf economaidd yn fwy rhanbarthol a strategol, ynghyd ag adnabod safleoedd strategol. Mae cyfle yma i gyflawni gwell integreiddiad strategol rhwng cynllunio trafndiaeth, cynllunio economaidd a chynllunio defnydd tir drwy ymagwedd newydd a beiddgar.

